# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Canllaw i becyn adnoddau'r cyflogwr

Mae'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi cael ei gyflwyno ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Mae'r newidiadau wedi cael eu cyflwyno i roi eglurder gwell i bobl ynglŷn â pha bensiwn a fyddant yn cael gan y wladwriaeth mewn ymddeoliad. Mae'n debygol y bydd gan eich gweithwyr gwestiynau ynglŷn â beth fydd y newidiadau hyn yn ei olygu iddynt hwy. Rydym wedi cynhyrchu'r pecyn adnoddau hwn i'ch helpu i ateb y cwestiynau hyn.



## Ebostiau, erthyglau, a pwyntiau bwled

Sut ydych yn rhoi negeseuon pwysig i'ch gweithwyr? ac/neu rhwydweithiau? Drwy ebost? Drwy lythyr newyddion staff neu gylchgrawn? Efallai bod gennych dudalen wefan rhyngrwyd neu LinkedIn.

I'ch helpu i gael y neges allan yn gyflym ac yn hawdd rydym wedi darparu e-bost cyflwyniadol a deunyddiau eraill, yn cynnwys erthygl fwy manwl a ellir ei ddefnyddio ym mha bynnag fformat sy'n addas i'ch busnes.

Rydym hefyd wedi cynnwys y prif achosion fel pwyntiau bwled fel eich bod yn gallu ysgrifennu eich erthyglau eich hun os byddai'n well gennych. Os ydych yn hoffi cyfathrebu gyda'ch gweithwyr wyneb yn wyneb bydd y pwyntiau bwled hyn yn eich helpu drwy'r pwyntiau pwysicaf.

## Ffeithlenni

Os ydych eisiau mwy o fanylion rydym wedi cynhyrchu cyfres o ffeithlenni'n cwmpasu:

- y cyswllt rhwng taliadau Yswiriant Gwladol ac eich Pensiwn y Wladwriaeth
- beth mae **eithrio** yn ei olygu i'ch pensiwn a beth fydd yn newid pan mae eithrio yn dod i ben
- sut mae **Symiau Cychwynnol** yn y system Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn cael eu cyfrifo, beth mae hynny yn ei olygu i'ch pensiwn a ffyrdd y gallwch gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth
- gohirio (mae rhai pobl yn dewis peidio â gwneud cais am eu Pensiwn y Wladwriaeth ar eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r ffeithlen hon yn egluro sut y gallwch wneud hyn a pa effaith y bydd hyn yn ei gael)

Gallwch weld y rhain a deunyddiau defnyddiol eraill yn www.gov.uk/government/collections/state-pension-toolkit neu eu hargraffu i'w dosbarthu.

Parhad ar dudalen 2

# Canllaw i becyn adnoddau'r cyflogwr



Mae'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi cael ei gyflwyno ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Mae'r newidiadau wedi cael eu cyflwyno i roi eglurder gwell i bobl ynglŷn â pha bensiwn a fyddant yn cael gan y wladwriaeth mewn ymddeoliad. Mae'n debygol y bydd gan eich gweithwyr gwestiynau ynglŷn â beth fydd y newidiadau hyn yn ei olygu iddynt hwy. Rydym wedi cynhyrchu'r pecyn adnoddau hwn i'ch helpu i ateb y cwestiynau hyn.

## Darluniau

I'w ddefnyddio mewn print a cyfathrebu digidol (ebost, cyfryngau cymdeithasol).

## Cyswllt fideo

A oeddech chi'n gwybod bod sianel YouTube ymroddedig i bensiynau? Mae PensionTube yn dod â fideos ac animeiddiad at ei gilydd yn portreadu arbenigwyr annibynnol, cyflogwyr, gweithwyr, elusennau a'r llywodraeth.

**Os oes gennych unrhyw adborth, da neu ddrwg, cysylltwch â'r tîm yn state.pensioncomms@dwp.gsi.gov.uk**

Mwy o wybodaeth yn: **www.gov.uk/yourstatepension**

Cyhoeddwyd mis Ebrill 2016